Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y gweithgarwch dilynol:  Gwelliant Sylweddol

**Ysgol Morgan Llwyd**
**Ffordd Cefn**
**Wrecsam**
**LL13 9NG**

**Dyddiad yr ymweliad:  Mehefin 2019**

**gan**

**Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod y darparwr wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o'r rhestr ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Codi safonau yng Nghyfnod allweddol 3 yn enwedig yn y lefelau uwch a gwella medrau ysgrifennu'r bechgyn.

Yn y mwyafrif o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn adalw gwybodaeth bynciol yn llwyddiannus ac yn cymhwyso gwybodaeth i sefyllfaoedd newydd yn briodol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig. Yn y gwersi, lle mae'r cynnydd yn fwy cyfyngedig, nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel ac nid ydynt yn cynnig digon o her i'r disgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar athrawon a chyfoedion. Wrth siarad, mae gan y mwyafrif ohonynt afael gadarn ar eirfa a therminoleg bynciol briodol. Mae llawer o'r disgyblion yn gweithio'n effeithiol mewn parau a grwpiau gan gefnogi ei gilydd gyda thasgau trafod. Fodd bynnag, yn y lleiafrif o wersi lle nad yw athrawon yn herio, mae disgyblion yn trafod ymysg ei gilydd yn Saesneg. Mae hyn yn cyfyngu ar eu rhuglder a'u hyder i siarad yn estynedig yn y Gymraeg.

Wrth ddarllen, mae llawer o ddisgyblion yn lleoli gwybodaeth yn gymwys ac yn dod i gasgliadau synhwyrol am yr ystyron sydd ymhlyg mewn testunau. Er enghraifft, mewn hanes, maent yn pwyso a mesur dibynadwyedd ffynonellau am gyflwr ac amodau'r ffosydd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf yn effeithiol. Mae'r mwyafrif yn gwneud defnydd pwrpasol o strategaethau darllen addas i ddadansoddi a gwerthfawrogi ystod o destunau amrywiol. Mae ychydig yn dadansoddi'n ddeheuig, er enghraifft wrth ddadansoddi sut mae caffein yn symbylydd sydd yn cynyddu actifedd y system nerfol.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn ar draws y pynciau. Maent yn trefnu eu gwaith yn synhwyrol gan ddefnyddio amrywiaeth o eirfa briodol. Maent yn ysgrifennu mewn ystod addas o ffurfiau ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol. Gall ychydig gymhwyso technegau ysgrifennu yn llwyddiannus er mwyn creu darnau soffistigedig a synhwyrus, er enghraifft mewn addysg grefyddol wrth ddisgrifio amodau byw person yn ystod yr Holocost. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn datblygu'n ysgrifenwyr hyderus ac yn arbrofi gyda chyweiriau iaith. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud gwallau sillafu a gramadegol cyson sy'n effeithio ar safon eu gwaith.

Mae gan fwyafrif y disgyblion fedrau rhif addas ac maent yn medru'u cymhwyso'n briodol i sefyllfaoedd newydd. Er enghraifft, yn eu gwersi cemeg, mae disgyblion Blwyddyn 10 yn medru cyfrifo'r ganran yn ôl mas o sodiwm mewn sodiwm hydrocsid. Mae gan fwyafrif y disgyblion fedrau mesur a thrin data priodol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 9 yn llunio diagramau amlder cronnus manwl gywir er mwyn cyfrifo mesurau o gyfartaledd a gwasgariad. Defnyddiant eu canfyddiadau i ddod i

gasgliadau priodol.  Fodd bynnag, nid yw medrau rhifedd lleiafrif o ddisgyblion yn ddigon cadarn.  Mae’r disgyblion hyn yn or-ddibynnol ar ddefnydd o gyfrifiannell ac nid oes strategaethau gwirio atebion digon effeithiol ganddynt.

Mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu.  Maent yn canolbwyntio’n briodol gan ddyfalbarhau â’u gwaith.  Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn ymroi’n bwrpasol i’w gwaith ac mae eu hymddygiad yn tarfu ar eu dysgu eu hunain ac ar eraill.

Pan fydd cyfleoedd, mae llawer yn gweithio’n effeithiol mewn parau ac mewn grwpiau. Serch hyn, nid yw medrau dysgu annibynnol llawer o ddisgyblion yn ddigon cadarn, yn bennaf oherwydd diffyg cyfleoedd a chynllunio pwrpasol a gofalus.

Ers adeg yr arolygiad craidd, mae’r ysgol wedi cyflwyno ystod priodol o strategaethau er mwyn gwella perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.  Mae arweinwyr wedi canolbwyntio ar wella’r ddarpariaeth er mwyn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn ogystal â chryfhau eu medrau a dealltwriaeth bynciol.  Rhoddir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion cyfnod allweddol 3 ysgrifennu’n estynedig at amrywiol bwrpasau ar draws llawer o bynciau.  Mae’r strategaethau buddiol hyn wedi cyfrannu at berfformiad cadarn dros y 3 mlynedd diwethaf yn y pynciau craidd ac yn y pynciau unigol yng nghyfnod allweddol 3.  Mae cynnydd yn nifer y disgyblion sy’n cyrraedd lefelau uwch mewn llawer o bynciau.  Yn ogystal, mae safonau ysgrifennu bechgyn o gymharu â safonau ysgrifennu bechgyn mewn ysgolion eraill wedi codi ers adeg yr arolygiad craidd.

Ers yr arolygiad craidd, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella.  Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yr ysgol wedi bod yn anwastad ers adeg yr arolygiad craidd ond mae gwelliant yn y mwyafrif o’r dangosyddion perfformiad yn 2018.

Mae cyfran y disgyblion sy’n ennill pum TGAU A*-C gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yn is na pherfformiad ysgolion tebyg dros y tair blynedd diwethaf ond, yn 2018, roedd y perfformiad yn lled agos at berfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg.  Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi’i chapio wedi bod yn sylweddol is nag mewn ysgolion tebyg dros yr un cyfnod, ond wedi gwella yn 2018.

Dros amser, mae perfformiad bechgyn wedi bod yn anwastad ond yn 2018 roedd eu perfformiad cystal â neu’n well na pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg yn y rhan fwyaf o ddangosyddion.

Mae perfformiad disgyblion sydd yn gymwys am brydau ysgol am ddim wedi amrywio dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn 2018, mae perfformiad y disgyblion hyn cystal â neu’n well na’u cyfoedion mewn ysgolion tebyg yn y mwyafrif o ddangosyddion.

**A2. Rhannu arfer dda ar draws yr ysgol i hybu ansawdd a chywirdeb marcio ac asesu, a dilyniant y disgyblion i sylwadau’r athrawon.**

Ers yr arolygiad craidd, mae’r ysgol wedi cryfhau ei threfniadau ar gyfer hybu ansawdd adborth ac asesu, a sicrhau dilyniant gan ddisgyblion i sylwadau’r athrawon.

Mae’r polisi ‘Asesu, Marcio ac Adborth ar Waith’ yn glir ac yn bwrpasol ac yn cael ei weithredu’n effeithiol ar draws yr ysgol.  Ers Medi 2016, mae’r ysgol wedi grymuso ei

phrosesau ar gyfer rhoi adborth pwrpasol i ddisgyblion. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ysgol wedi gwrando ar farn disgyblion a defnyddio'r canfyddiadau'n briodol a'u rhannu gydag athrawon. Mae'r prosesau yn fwy cydlynus a chlir erbyn hyn i sicrhau bod adborth yn rhoi sylw priodol i feini prawf llwyddiant tasgau, cywirdeb gramadegol, a thargedau ar sut i wella ansawdd y gwaith. O ganlyniad, mae'r broses o ddarparu adborth ar waith disgyblion yn ddefnyddiol ac yn cael ei gweithredu'n effeithiol.

Trwy hyfforddiant a chyfleoedd priodol i rannu arfer dda, mae ansawdd yr adborth gan athrawon, mewn llawer o achosion, wedi datblygu a'i finiogi. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn briodol i sylwadau a chywiriadau'r athrawon ac maent yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol i'w gwaith. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiaeth yn nisgwyliadau athrawon o ran natur tasgau dilynol ac o ran ansawdd ymatebion disgyblion.

Mae arweinwyr ar bob lefel, gan gynnwys y llywodraethwyr, yn cymryd rhan yn y gweithgareddau monitro i sicrhau bod athrawon yn cydymffurfio â'r polisi wrth ddarparu adborth ac asesu gwaith disgyblion. Ers mis Ionawr 2018, mae'r ysgol wedi cryfhau'r gweithdrefnau atebolrwydd drwy greu prosesau i edrych ar lyfrau. Mae llawer o arweinwyr yn monitro'r agwedd hon a sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu'n effeithiol er mwyn cysoni ansawdd yr adborth a'r pwysais ar wella safonau. Fodd bynnag, nid yw pob adran yn glynu at y calendr sicrhau ansawdd ar gyfer craffu ar lyfrau gwaith ar bob achlysur er mwyn cael darlun cyson a chlir o ansawdd adborth o fewn eu meysydd penodol.

**A3. Lleihau lefel y gwaharddiadau dros dro.**

Mae Ysgol Morgan Llwyd yn ysgol gynhwysol iawn sydd yn sicrhau bod bron bob disgybl yn medru cwblhau eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cyflwyno nifer o strategaethau buddiol er mwyn cefnogi disgyblion sydd â phroblemau ymddygiadol dwys. O ganlyniad, mae nifer y gwaharddiadau tymor penodol wedi lleihau'n sylweddol ac maent wedi bod yn isel ymhob un o'r tair blynedd diwethaf.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cryfhau ei darpariaeth i hybu lles ac ymddygiad disgyblion. Mae hyn yn cynnwys ailstrwythuro'r tîm bugeiliol er mwyn gwella ei effeithlonrwydd a sicrhau bod llinellau atebolrwydd clir a chyson. Yn ogystal, mae strategaethau cadarn wedi eu cyflwyno lle mae arweinwyr yn cefnogi athrawon pan geir achosion o gamymddwyn mewn gwersi. Mae'r ysgol wedi gweithredu'n gadarn i gryfhau'r bartneriaeth â rhieni a gofalwyr er mwyn cefnogi lles disgyblion. Mae gwaith y canolfannau 'Cynnal' a 'Lles', a'r partneriaethau defnyddiol gydag asiantaethau allanol yn chwarae rhan allweddol er mwyn cynnig cefnogaeth fuddiol i ddisgyblion bregus a'r rhai sydd ag anawsterau ymddygiadol. O ganlyniad, mae nifer y digwyddiadau o gamymddwyn difrifol wedi lleihau dros y tair blynedd diwethaf.

Mae'r ysgol wedi darparu hyfforddiant priodol i'r holl staff ar strategaethau rhagweithiol synhwyrol i leihau achosion o fân darfu mewn gwersi, ac ar ddulliau rheoli ymddygiad. Mae arweinwyr wedi gweithio'n agos gyda'r disgyblion ac athrawon i ailymweld â'r polisi a phrosesau ymddygiad, gan greu llwybrau cosbau pwrpasol a chyson. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon yn gweithredu'r prosesau hyn yn ddigon cyson ac effeithiol sydd yn effeithio ar y cynnydd a wna ychydig o ddysgwyr.

**A4. Gweithredu ar argymhellion hunanasesu'r ysgol a rhannu’r arfer orau ymhlith yr holl adrannau wrth hyrwyddo rhagoriaeth.**

Mae’r pennaeth newydd wedi gweithredu’n gadarn er mwyn rhoi cyfeiriad a disgwyliadau clir i waith yr ysgol a sefydlu gweithdrefnau pwrpasol. Yn dilyn ailstrwythuro’r uwch dîm rheoli, mae rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr yn glir ac yn synhwyrol. Mae staff a disgyblion yn deall y rolau hyn ac mae llinellau atebolrwydd nawr yn eglur.

Mae uwch arweinwyr wedi cryfhau prosesau hunanwerthuso a threfniadau atebolrwydd. Bellach, mae’r prosesau hyn yn fwy cryno ac ymarferol. Mae pwyslais cynyddol ar sicrhau bod gan arweinwyr adnabyddiaeth gyfredol o berfformiad ar lefel ysgol gyfan ac adrannol. Mae cyfarfodydd rhwng arweinwyr ac arweinwyr canol yn digwydd yn rheolaidd ac mae pwyslais amlwg ynddynt ar gynnydd a chyflawniad disgyblion.

Mae’r calendr clir o weithgareddau hunanwerthuso, monitro a sicrhau ansawdd defnyddiol yn cynnwys arsylwadau gwersi a sesiynau craffu ar waith, cyfleoedd i gasglu barn disgyblion, trefniadau monitro agweddau megis lles, y gyllideb a’r cwricwlwm a systemau olrhain cynnydd academaidd disgyblion. Mae’r system olrhain cynnydd wedi’i diwygio ac mae erbyn hyn yn drefnus a chyson lle mae pob adran yn dilyn yr un drefn. Mae arweinwyr yn dechrau gwneud defnydd o’r wybodaeth o’r system hon i adnabod tangyflawnwyr ac i fonitro cynnydd disgyblion. Mae arweinwyr wedi cryfhau’r trefniadau i ganfod a gweithredu ar farnau disgyblion a rhieni. Mae enghreifftiau clir o’u barnau yn dylanwadu ar benderfyniadau, megis y diwygiadau i’r polisi ymddygiad, newidiadau o ran y wisg ysgol ac addasiadau i gynlluniau gwaith adrannol. Mae arweinwyr yn ystyried ystod addas o ddata, ond nid ydynt bob amser yn rhoi digon o sylw i ddata yn ei holl fanylder.

Mae’r calendr o weithgareddau yn cael ei weithredu’n gyson ar lefel ysgol gyfan. Mae’r uwch dîm arwain a llawer o arweinwyr eraill yn gwneud defnydd priodol o ganfyddiadau’r gweithgareddau hyn i arfarnu eu gwaith ac yn crynhoi a rhannu canfyddiadau’r gweithgareddau hyn yn effeithiol, ar y cyfan. Erbyn hyn, mae disgwyliadau clir ar arweinwyr i ymateb yn amserol i’r canfyddiadau trwy gamau gweithredu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o arweinwyr canol yn ddigon effeithiol o ran cynnal gweithgareddau sicrhau ansawdd a hunanwerthuso nac o ran gweithredu ar y canfyddiadau.

Ar y cyfan, mae arweinwyr yn onest ac yn arfarnol wrth werthuso’u perfformiad ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o’r rhan fwyaf o’r cryfderau a’r meysydd i’w gwella. Er hyn, mae adnabyddiaeth arweinwyr canol o’r holl gryfderau a’r meysydd i’w gwella yn eu hadrannau, yn enwedig o ran medrau a chynnydd disgyblion ac ansawdd yr addysgu, yn rhy amrywiol. Yn gyffredinol, nid oes digon o sylw i werthuso medrau disgyblion yn y prosesau hunanwerthuso.

Er y gwelliannau o ran sefydlu cyfundrefnau ac arferion hunanwerthuso addas, nid yw gwaith yr ysgol i wella ansawdd yr addysgu wedi bod yn ddigon strategol. Yn gyffredinol, nid oes digon o sylw i addysgu mewn cyfarfodydd ac nid oes strategaeth ddigon clir o ran gweledigaeth hir-dymor a dilyniant i hyfforddiant ar addysgu.

Mae gweithredu effeithiol gan arweinwyr wedi arwain at welliannau yn ôl asesiadau athrawon yng nghyfnod allweddol 3 ac yn y mwyafrif o’r dangosyddion perfformiad

yng nghyfnod allweddol 4, presenoldeb uchel, gostyngiad yn nifer y gwaharddiadau a gwell dealltwriaeth gan arweinwyr o'u rolau. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau hyn wedi cael digon o effaith ar sicrhau addysgu cyson effeithiol ac, er y gwelliannau yn neilliannau cyfnod allweddol 4, mae perfformiad disgyblion mewn lleiafrif o'r dangosyddion, gan gynnwys mathemateg, Saesneg a 5 TGAU gradd A*-A neu gyfwerth, yn parhau'n feysydd i'w gwella.

**Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**